

POBL AMGYLCHEDD

Neges Y Cyfarwyddwr



Mae'r adran wedi bod yn brysur iawn ers y llythyr newyddion diwethaf. Fel awdurdod rydyn ni wedi croesawu Prif Weithredwr newydd, sef Wendy Walters a ddechreuodd ei swydd newydd ym mis Mehefin. Dymunwn yn dda iddi yn ei rôl newydd ac rwy'n gwybod ei bod hi'n awyddus i ymweld â nifer o adeiladau'r Cyngor a chyfarfod â chynifer o bobl â phosibl. Rydyn ni wedi ei chroesawu i Depo Trostre eisoes, lle bu'n treulio amser yn edrych o gwmpas ac yn cwrdd â nifer o aelodau staff. Rwy'n siŵr y bydd llawer mwy ohonoch yn cwrdd â hi yn ystod y misoedd nesaf.

Mae'r cynllun gweithio ystwyth yn gwneud cynnydd da ac yn ceisio datblygu arferion gweithio modern sy'n eich helpu i ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau, gan ganiatáu ichi sicrhau cydbwysedd rhwng galwadau gwaith a bywyd.

Staff y gwasanaethau cynllunio yw'r rhai diweddaraf i symud, a hynny o 8 Heol Spilman i'r ystafelloedd gweithio ystwyth yn 3 Heol Spilman. Mae'r tîm yn gadarnhaol iawn am y ffordd newydd o weithio ac wedi croesawu symud i'r swyddfeydd newydd.

Bwriad gallu gweithio mewn ffordd ystwyth yw gwella'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu ac mae hyn yn dibynnu ar y staff yn gwneud trefniadau gwaith teg a diogel. Gofynnwn ichi fod yn rhesymol o ran y ffordd y byddwch yn defnyddio gweithio ystwyth a gwneud penderfyniadau sy'n ateb anghenion y cwsmer a'ch tîm drwy ymgynghori â'ch rheolwr.

Mae'r rhaglen gweithio ystwyth yn dal i fynd rhagddi ar draws y Cyngor ac mae prosiect arall yn cael ei ddatblygu yn Depo Trostre, Llanelli.

Rydyn ni wastad wedi cefnogi hyfforddiant a datblygu yn Adran yr Amgylchedd, yn enwedig annog pobl ifanc i ystyried yr amrywiaeth eang o gyfleoedd gyrfa sydd ar gael mewn awdurdod lleol.

Mae'r rhaglen Barod am Waith wedi parhau eleni er mwyn cynnig cyfleoedd i Hyfforddeion Graddedig a Phrentisiaid Modern. Rydyn ni'n disgwyl cael gweithwyr newydd yn Adran yr Amgylchedd cyn bo hir, felly os byddwch yn cwrdd â nhw, mae angen ichi roi croeso iddyn nhw a chynnig unrhyw gymorth sydd ei angen arnyn nhw ar ddechrau eu gyrfa.

Rwy'n hynod o falch fod Adran yr Amgylchedd yn bartner i raglen arall sy'n cefnogi prentisiaid ifanc. Mae'r rhaglen Camau Nesaf yn cynnig cyfle profiad gwaith i bobl ifanc gyda chontractwyr lleol am 6 wythnos yn ystod yr haf, ac mae posibilrwydd o gael cynnig prentisiaeth gyda'r contractwyr neu'r Cyngor ar ddiwedd y cyfnod hwn. Bellach mae'r rhaglen Camau Nesaf yn cael ei gynnal am y degfed tro eleni, ac mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi croesawu 3 phrentis newydd i'n tîm eiddo eleni. Da iawn bawb sy'n cymryd rhan yn yr hyfforddiant ac sy'n cynnig cyfleoedd datblygu ar draws y Cyngor - daliwch ati â'r gwaith da.



Yn fwy diweddar, rydyn ni wedi cynnal nifer o foreau coffi Macmillan. Cynhalion ni un ym Mharc Myrddin a Neuadd y Sir ar 25 Medi, a chafodd un ei gynnal yn Depo Trostre ddydd Gwener 27 Medi. Rydyn ni wedi codi mwy na £900 ac mae mwy i ddod. Da iawn bawb. Roedd gallu mynd i'r 3 digwyddiad yn ardderchog ac yn sicr, mae safonau cystal â "Bake Off" yn bodoli ymysg ein staff. Rwy'n gobeithio y byddwn ni'n parhau â'r digwyddiad hynod lwyddiannus hwn bob blwyddyn.

Ruth Mullen


Gwerthoedd Craidd ar Waith

Cynhaliwyd **Gwobrau Gwasanaeth Hir yr Amgylchedd** yn y Gerddi Botaneg ym mis Awst.

Cafodd gweithwyr sydd wedi gweithio i'r awdurdod ers dros 30 mlynedd eu cydnabod yn y gwobrau am eu teyrngarwch.

Cynhaliwyd y gwobrau gwasanaeth hir gan ein hadran i ddangos ein gwerthfawrogiad am eu cyfraniad i'r awdurdod ac am rannu ein gwerthoedd craidd.

Yn ein cylchlythyr ym mis Rhagfyr bydd ychwanegiad llawn yn cael ei gynnwys ar y digwyddiad hwn cadwch eich llygaid ar agor.



Trefniadau Gweithio - Nadolig a Blwyddyn Newydd

Yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfod y Tîm Rheoli Corfforaethol, cytunwyd bellach ar y trefniadau gwyliau ar gyfer y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd fel a ganlyn:

Dydd Mawrth, 24 Rhagfyr Swyddfeydd Ar Agor - Orlau Gwaith Arferol

Dydd Mercher, 25 Rhagfyr* Swyddfeydd Ar Gau - Gŵyl Banc/Gŵyl Gyhoeddus

Dydd Iau, 26 Rhagfyr* Swyddfeydd Ar Gau - Gŵyl Banc/Gŵyl Gyhoeddus

Dydd Gwener, 27 Rhagfyr Swyddfeydd Ar Agor - Orlau Gwaith Arferol

Dydd Llun, 30 Rhagfyr Swyddfeydd Ar Agor - Orlau Gwaith Arferol

Dydd Mawrth, 31 Ionawr 2019 Swyddfeydd Ar Agor - Orlau Gwaith Arferol

Dydd Mercher, 1 Ionawr 2020* Swyddfeydd Ar Gau - Gŵyl Banc/Gŵyl Gyhoeddus

*Bydd angen darparu Gwasanaethau Hanfodol ar y diwrnod hwn ond bydd trefniadau lleol yn cael eu gweithredu er mwyn ateb y gofynion. Os bydd angen eglurhad pellach ar y mater hwn arnoch, cysylltwch â'ch rheolwr llinell yn uniongyrchol.

Chi'n fansio her camu am elusen?

Mae taith gerdded fer yn mynd yn bell. Mae pobl gweithredol yn byw bywydau hirach ac iachach. Mae cerdded yn gweithio mewn gwirionedd. Mae gweithlu sy'n gweithredol yn gorfforol yn cymryd 27% llai o ddiwrnodau salwch.

Mae gennym ein Grŵp Camau Parc Myrddin ein hunain. Rydyn ni'n rhoi £2 yr un bob mis. Mae pawb yn enwebu eu helusen unigol a ddewiswyd. Rydym yn coladu camau ar daenlen a rennir. Mae'r aelod staff sy'n cael y mwyaf o gamau y mis hwnnw, yn cael rhoddion pawb i'w rhoi i'r elusen o'u dewis.

Enillwyr ein her:

Gorffennaf - Kelly Phillips a roddodd £18 i Ambiwylans Awyr Cymru

Awst - Poppy Evans a roddodd £18 i Eglwys Gymunedol Tywi

Os ydych chi am ymuno â'n grŵp neu'n dymuno trafod ein syniad er mwyn i'ch gweithle wneud



Myrddin Milers



Dewch i ymuno â Grŵp Rhedeg Parc Myrddin! <i>Yn cwrdd o flaen Bloc 1 Dydd Mawrth a Dydd Iau @16: 15yp (Glaw neu Haul!) Llwybrau eiledol, uchafswm o 5k ar hyn o bryd RHEDEG, CERDDED NEU LONCIAN!</i>	Come and join the Parc Myrddin running group! <i>Meeting in front of Block 1 Tuesday's and Thursday's @16:15pm (Rain or Shine!) Alternating routes, currently a maximum of 5k RUN, WALK OR JOG!</i>
--	--



Cysylltu gyda CNelson@sirgar.gov.uk neu Palevans@sirgar.gov.uk am fwy o gwybodaeth. Contact CNelson@cararthenshire.gov.uk or Palevans@cararthenshire.gov.uk for further information.



Llongyfarchiadau!

Mae Shaun Miles wedi cwblhau ei cwrs BSc Rheoli Adeiladu a Thechnoleg

Mae Gary Clark wedi cwblhau ei radd Baglor mewn Peirianeg.

Mae Karen Mole-Davies wedi cwblhau ei gradd sylfaen mewn Rheoli a Thechnoleg Adeiladu.

Llongyfarchiadau i Rose Mathews, Zoe Smith a Kelly Thomas sydd wedi cwblhau eu sesiwn sefydlu ar gyfer beiciau adrannol.

Gruff - Ein Arwr Elusen!

Ymgwymerodd Gruff â her hollalluog eleni i elusen. Yr her hon oedd cwblhau Her 100k Arfordir y De ar 31 o Awst ar hyd Arfordir y De (SouthDowns) o fewn 22 awr.

Roedd y tywydd yn ffafriol gyda heulwen a llwyddodd y glaw i gadw draw. Mwynhaodd Gruff yr her gyda llawer o gefnogaeth deuluol a llwyddodd i'w chwblhau mewn amser o 21awr a 7 munud!.

Yr her oedd codi arian ar gyfer y British Heart Foundation, os ydych chi am gyfrannu ewch i:

<https://www.justgiving.com/fundraising/callevaatrebates>



Gwasanaeth pwysig Bwcabus yn dathlu 10 mlynedd o fodolaeth a gwobrwyo llwyddiant

Mae ein gwasanaeth bysiau gwledig sydd wedi cael ei ddisgrifio fel gwasanaeth hanfodol i'w deithwyr yn dathlu ei ben-blwydd yn 10 oed.

Mae Bwcabus yn gweithredu chwe diwrnod yr wythnos yn Nyffryn Teifi yng Ngogledd Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, ac ar draws Sir Benfro, gan ganiatáu i ddefnyddwyr archebu siwrneiau ymlaen llaw neu ddefnyddio gwasanaethau sefydlog i gysylltu â'r TrawsCymru a gwasanaethau bysiau lleol eraill.

Ar eu pen-blwydd yn 10 oed, fe'u dewiswyd yn rownd derfynol Tîm Trafnidiaeth y Flwyddyn a Chategoriâu Gwobr Gofal Cwsmer yng Ngwobrau Trafnidiaeth Cymru.

Llongyfarchiadau enfawr i'r tîm a Pob Lwc!



Mor syml ag 1, 2 neu 3

Po fwyaf rydych yn ei ailgylchu, y lleiaf o fagiau sbwriel du fydd gennech!

O 7 Hydref 2019, bydd terfyn o 3 bag du bob pythefnos yn berthnasol.

Does dim terfyn ar nifer y bagiau glas a chesglir eich biniau bwyd bob wythnos.



#AilgylchuSirGar

Mor syml ag 1, 2 neu 3

Ailgylchwch fwy, defnyddiwch lai o fagiau du

Y nifer **mwya**f o fagiau du y gallwch eu rhoi allan yw **3 bob pythefnos**

Simple as 1, 2 or 3

Recycle more, use less black bags

The **maximum** number of black bags you can put out is **3 a fortnight**



Sir Gâr yn ailgylchu
Carmarthenshire recycles

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Llesiant Gweithwyr Employee Wellbeing




Diwrnod Beicio i'r Gwaith yw'r digwyddiad cymudo beiciau mwyaf yn y Deyrnas Unedig ac fe cynhaliwyd eleni ar yr 8fed o Awst. Gwahoddodd Hyrwyddwyr Iechyd a Lles Adran yr Amgylchedd staff i gymryd rhan yn y Diwrnod Beicio i'r Gwaith trwy feicio i'r gwaith ac ymweld â nhw y tu allan i Bloc 7, Parc Myrddin am sesiwn wybodaeth ar y cynllun Beicio i'r Gwaith a'r cynllun Beicio yr Adran sydd ar gael i staff. Dosbarthodd yr hyrwyddwyr wybodaeth am fuddion beicio, llwybrau beicio a cherdded sydd ar gael yn Sir Gar ac amserlenni chwaraeon ac hamdden Actif. Roedd y hyrwyddwyr hefyd wedi gwahodd staff i gymryd rhan mewn cystadleuaeth selfi Beicio i'r Gwaith gyda gwobr yn cael ei dyfarnu am yr slefi gorau! Daeth nifer dda i'r digwyddiad a hoffai'r hyrwyddwyr ddiolch i'r rhai a fynychodd gan gynnwys Lucy Pugh enillydd y gystadleuaeth selfi Beicio i'r Gwaith ac a enillodd botel dwr i'r beic. Da iawn bawb!.





Llesiant Gweithwyr Employee Wellbeing



Yn unol ag **wythnos bwyta'n iach**, cyflwynodd Hyrwyddwyr Iechyd a Lles Adran yr Amgylchedd gyfres o weithgareddau i hyrwyddo ac annog bwyta'n iach. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys cymryd dros y siop twc lle roedd yr hyrwyddwyr yn disodli pob opsiwn fel creision, bariau siocled a diodydd pefriog gyda ffrwythau, bariau maeth a dŵr. Roeddent hefyd yn cynnwys sesiwn blasu bwyd lle gwahoddodd yr hyrwyddwyr staff i ddod â prydau bwyd iachus i gwaith i'w cydweithwyr roi cynnig arnynt. Fe wnaeth staff ymateb i'r her a dod â rhai opsiynau blasus i mewn gan gynnwys saladau, prydau pasta, quiche heb fraster, potiau brecwast a danteithion iach. Hefyd, cyflwynodd yr hyrwyddwyr weithdai smwddi ar gyfer smwddis ffrwythau a llysiau lle gwahoddwyd staff i arsylwi arddangosiad a blasu'r smwddis a wnaed. Darparwyd ryseitiau trwy gydol y digwyddiad i staff fynd â nhw adref a rhoi cynnig arnynt yn amser eu hunain. Roedd y digwyddiadau hyn hefyd yn cynnwys elfen gymdeithasol wrth i'r holl weithgareddau gael eu cyflwyno yn y gegin gymunedol lle daeth staff ynghyd i drafod popeth iechyd a lles a chyfnewid syniadau a ryseitiau. Hefyd lluniwyd canllaw dogn pump y dydd ar wal y gegin er gwybodaeth. Fe wnaeth yr hyrwyddwyr fwynhau cyflwyno'r digwyddiad yn fawr iawn a hoffent ddiolch yn fawr iawn i'r holl staff a gefnogodd weithgareddau'r wythnos. Diolch arbennig i'r holl staff a gyfrannodd prydau iach ar gyfer y sesiwn blasu bwyd. Roedden nhw'n flasu iawn!

Mae newyddion gyrrwr bellach yn fyw ar y Fewnrwyd!

Mae gyrru'n fyw yn ôl! Gallwch chi i gyd weld y Fewnrwyd yn allanol a gweld y wybodaeth ddiweddaraf i chi'ch hun.

<http://mewnrwyd/ein-pobl/teithio-a-pharcio/>

 Teithio a Pharcio

Cadwch olwg ar y rhan hyn o'r fewnrwyd am y canllawiau, newyddion a gwybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â gyrru o dan ein hadran Teithio a Pharcio ar y fewnrwyd.

Ar hyn o bryd mae gennym erthyglau ar y pynciau a ganlyn:

- Sut allwch chi wirio pa mor hen yw'ch teiars?
- Y gyfraith ynchylch defnyddio ffonau symudol
- Canllawiau i [yrwyr cerbydau nwyddau mawr \(cerbydau dros 3,500kg\)](#)

Cyfarfodydd Di-bapur a Cyfarfodydd Cherdded

Cyfarfodydd di-bapur yw'r ffordd ymlaen

Yn unol â phenderfyniad y Cyngor, mae'r Awdurdod bellach wedi symud i [gyfarfodydd di-bapur](#), ac ni ddarperir copïau papur mwyach. Atgoffir staff i lawrlwytho agendâu cyn gynted ag y derbynnir dolenni cyhoeddi ac i gofio gwefru a dod â'ch llechen/gliniadur i gyfarfodydd. Mae pwyntiau gwefru ar gael yn y rhan fwyaf o ystafelloedd cyfarfod, os bydd angen.

Beth am drefnu cyfarfod cerdded?

Mae staff yn treulio mwy o amser yn eistedd wrth eu desgiau nag erioed. Beth sy'n ein cadw ni wrth ein desgiau? Ein hawydd mawr am well cynhyrchiant ac effeithlonrwydd. Yn eironig, un o'r pethau cyntaf sy'n ein gwneud yn fwyaf effeithiol yw gadael ein desgiau. Ni fydd pob cyfarfod yn briodol, ond gofynnwn i chi ystyried y canlynol wrth drefnu cyfarfod.

Rydym yn eich annog i ystyried cyfarfodydd cerdded, am y rhesymau canlynol:

- Iechyd Gweithwyr - galluogi staff i gynnwys gweithgarwch corfforol yn eu diwrnodau gwaith, sy'n gwella'u hiechyd ac yn lleihau nifer y diwrnodau salwch.
- Mwy o egni i weithwyr - mae symud yn achosi cylchrediad, mae cylchrediad yn rhoi egni.
- Ysbrydoliaeth - mae natur a newidiadau i'n hamgylchedd yn sbarduno'r llwybrau niwrolegol yn ein hymennydd sy'n arwain at syniadau newydd ac atebion newydd i broblemau.
- Cysylltiadau personol cryfach - mae cyfarfodydd cerdded yn cael gwared â'r teimlad corfforaethol mewn cyfarfodydd. Gall gweithwyr gyflawni'r un nodau sydd wedi'u gosod ar gyfer cyfarfod traddodiadol, ond gallant uniaethu ar lefel fwy personol o lawer.
- Lleihau gwahaniaethau - mae cyfarfodydd cerdded yn dod â phawb at ei gilydd.



CORNEL

CYMRAG

Yn ddiweddar roed y'r arweinwyr iaith Gymraeg wedi gwahodd staff yr Amgylchedd i gymryd rhan mewn **helfa drysor Gymraeg** ryngweithiol.

Dosbarthwyd yr helfa drysor yn Gymraeg gyda'r nod o annog staff i ddefnyddio'r offer cyfieithu sydd ar gael iddynt fel gweithwyr y Cyngor ac i ddarganfod mwy am y defnydd o'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin. Dosbarthwyd taflenni gweithgaredd trwy e-bost cyn dechrau'r digwyddiad a gwahoddwyd staff hefyd i gasglu taflenni at stondin y'r arweinwyr Cymraeg a oedd wedi'i lleoli yn Tŷ Castell.

Roedd staff yn galli ymweld â stondin yr arweinwyr iaith i gael gwirio eu taflenni gweithgaredd ac i gwrdd â'u harweinwyr Cymraeg i drafod cyfleoedd datblygu iaith Gymraeg sydd ar gael iddynt. Cuddiwyd cliwiau a chardiau cwestiynau mewn gwahanol leoliadau o amgylch tref Caerfyrddin a oedd yn cynnwys cwestiynau ynghylch defnyddio'r Gymraeg yn gwaith.

Gwahoddwyd staff i ffurfio timau i gyflawni'r helfa. Daeth nifer dda i'r digwyddiad a hoffai arweinwyr y Gymraeg ddiolch i bawb a gefnogodd y digwyddiad gan gynnwys enillwyr yr helfa drysor, tîm Cynllunio, Stryd Spilman!



CORNEL

CYMRÆG

Croeso i bawb, dewch i gael hwyl ac i rannu'r iaith Gymraeg.

Diwrnod Shymaë Su'maë

Noson Quiz Gwis Night

15 Hydref 2019

Dathlu'r Iaith Gymraeg

*Digwyddiad Am
ddim*

15 October 2019

*Celebrating the Welsh
Language*

Free Event

Cynhelir y cwis gan Marc Griffiths,
Cyflwynydd Radio

Yn addas ar gyfer dysgwyr
Cymraeg ac i siaradwyr Cymraeg

Lluniaeth ar gael am ddim

Dechrau am 18:00

Yr Atom, 16-18 Stryd Y Brenin,
Caerfyrddin,

SA31 3BN

Quiz Hosted by Marc Griffiths,
Welsh Broadcaster

Suitable for Welsh learners and
Welsh speakers

Free refreshments available

Starting at 18:00

Yr Atom, 16-18 King Street,
Carmarthen,

SA31 3BN

Anogir staff i ffurfio timau o
hyd at 6 o bobl ac i
gofrestru eu tîm gyda
Palevans@sirgar.gov.uk
cyn y 9fed o Hydref.



Staff are encouraged to
form teams of up to 6
people and register with
Palevans@sirgar.gov.uk
by the 9th October

Shymaë Su'maë Day

All welcome, come to have fun and share the Welsh Language

Dweud eich dweud!

Mynegwch eich barn am eich gweithle mewn cyfres o arolygon staff.

Bydd pob ymateb yn gwbl ddiennw.



Have your say!

Share your views on your workplace in a series of staff surveys.

All responses are completely anonymous.



skype

CYMRWCH - ARWMB - CEFNGO
EN POBL
OUR PEOPLE
ENGAGE - LEAD - SUPPORT

Heb dderbyn eich arolwg? Cysylltwch â:

Haven't received your survey? Contact:



01267 224692



consultation@carmarthenshire.gov.uk
ymgynggori@sirgar.gov.uk





Bellach gallwch weld mewnrwyd y cyngor ar unrhyw ddyfais – gan gynnwys eich dyfais eich hun.

Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws ichi gael gwybod am yr hyn sy'n digwydd yn eich gweithle ar unrhyw adeg.

<http://einpobl.sirgar.llyw.cymru>



You can now view the council's intranet on any device - including your own.

Making it easier to keep you informed about what's going on in your workplace at any time

<http://ourpeople.carmarthenshire.gov.wales>



Mewnwrwyd Amgylchedd



 Amgylchedd

Ein Tîm Rheoli Adrannol

Newyddion a'n Digwyddiadau

Ein Digwyddiadau ar gyfer Rheolwyr Pobl

Harweinwyr Cymraeg

Mentoriaid Cymraeg

Hyrddwyr Iechyd a Llesiant

Gweithgareddau/Grwpiau Iechyd a Llesiant

Adran yr Amgylchedd Environment Department

Dosbarthiadau Staff Yoga Classes

Ystafell Gynhadledd, Bloc 1 Parc Myrddin Conference Room, Block 1

Byddwn yn darparu matiau ioga.

Mae lleoedd yn gyfyngedig i 15 y sesiwn ar sail llefydd i'r cyntaf sydd yn fynychu.

yb 7.30 - 8.15 am

Dyddiadau / Dates

Yoga mats will be provided.

Places are limited to 15 per session on a first come first serve basis.

Dydd Iau 12 Fedi/ Thursday 12 Sept
 Dydd Mawrth 17 Fedi / Tuesday 17 Sept
 Dydd Iau 26 Fedi/ Thursday 26 Sept
 Dydd Iau 3 Hyd/ Thursday 3 Oct
 Dydd Iau 10 Hyd / Thursday 10 Oct
 Dydd Mercher 16 Hyd / Wednesday 16 Oct
 Dydd Iau 24 Hyd/ Thursday 24 Oct



Dydd Iau 31 Hyd/ Thursday 31 Oct
 Dydd Mawrth 5 Tach/ Tuesday 5 Nov
 Dydd Iau 21 Tach/ Thursday 21 Nov
 Dydd Iau 28 Tach/ Thursday 28 Nov
 Dydd Iau 5 Rhag/ Thursday 5 Dec
 Dydd Iau 12 Rhag/ Thursday 12 Dec
 Dydd Iau 19 Rhag/ Thursday 19 Dec

Dosbarthiadau Ymestyn a Chryfhau

Stretching and Strengthening Classes

Mae pob sesiwn yn para 30 munud ac y gellir ei wneud yn ystod oriau gwaith

30 minute sessions which can be undertaken during work hours

2.00yp - 3 yp Dydd Gwener

Wythnosol o hyd nes y rhoddir rhybudd pellach

2.00pm - 3 pm Friday

Weekly until further notice

I'w gynnal yn "Y Storfa", Depo Trostre

To be held in "The Stores", Trostre Depot

Siaradwch â'ch rheolwr llinell cyn mynychu

Please speak to your line manager before attending

